

## ***Cyngor Cymuned Llanllyfni***

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor - Nos Fawrth y 9fed o Fehefin 2015.

- 1. Presennol:**OP Huws (Cadair), Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts - Llanllyfni; Harry Wyn Owen - Talysarn; Ffion Jones - Nantlle; Barry Bracegirdle, Nerys Williams - Penygroes; Eurig Wyn Evans - Nebo / **Ymddiheuriadau:** Craig ab Iago (Cynghorydd Sir); Dyfed Edwards, Iwan Lloyd Williams, Justin Davies - Penygroes; Sharon Jones, Dafydd Glyn Owen - Talysarn.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir:** Gwyndaf Roberts - goleuadau Nadolig; OP Huws - Canolfan Fenter.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mai :** Cywirdeb - ymddiheuriad wedi ei dderbyn ar ran Gwyndaf Roberts a heb ei gofnodi. Hefina yn datgan cywirdeb y cofnodion, Barry yn eilio.
- 4. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Gyrru copi o'r gwyn am y bin yn Talysarn i Peter Simpson.
- 5. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor –** pwyllgor is-bwyllgor mynwentydd. Cynhaliwyd pwyllgor ym mynwent MacPelah efo Arwel Jones-Griffith i drafod y cynllun. Iwan Ll Williams, Sharon Jones, Barry Bracegirdle, Harry Wyn Owen, Dafydd Glyn Owen, Eurig Evans, Gwyndaf Roberts a'r Clerc yn bresennol. O ganlyniad i'r cyfarfod safle, rhoddwyd dau gynnig o flaen y Cyngor llawn sef 1) dymchwel y wal ganol yn unig, cadw'r cerrig mewn tociau, tynnu coeden, a chodi ffens; 2) dymchwel y wal ganol, codi ffens, tynnu coeden, codi wal derfyn newydd ym mhen uchaf y fynwent. Argymhellwyd bod angen defnyddio ffens bwrpasol i gadw cwningod allan o'r fynwent. Argymhellwyd bod y wal derfyn newydd yn uwch na'r un sydd ar y cynllun, a'i bod yn cael ei chodi i'r un uchdwr a'r wal derfyn sydd ar y fynwent bresennol. Penderfynwyd bwrw ymlaen gydag opsiwn 2, a chwblhau'r ddau ran 'run adeg, ond yn ddwy gcontract wahanol - hysbyseb yn y papur "gwaith ffensio a walio ym mynwent MacPelah - rhan A a rhan B - cysylltu gyda'r Clerc neu Iwan Lloyd Williams am fanylion. Gofyn wrth Arwel am bris i oruchwyllo /rheoli'r brosiect.
- 6. Cynllunio** C15/0498/22/LL - 3 Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle - newid defnydd uned diwydiannol i siop dyfrol - derbyn; C14/1197/22/LL - Bryn Melyn, Nasareth - lloches anifeiliaid ayyb diwygiadau - cymeradwyo; C15/0377/22/LL - Bryn Llys, Nebo - cais i gadw gwaith ymestyn ty heb gydymffurfio a chaniatad cynllunio - cymeradwyo ond gyda phryder y gall osod cynsail; Cwestiynnu Bryn Teg, Llanllyfni - a oes cais cynllunio cyfredol i newid defnydd y garej i annedd.
- 7. Gohebiaeth.**  
**Cyngor Gwynedd**  
\*Ymatebion i gwynion / ymholiadau. Darllenwyd yr ymatebion.  
\*Gwybodaeth ar gynllun gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaeth ieched. Er gwybodaeth.  
\*Gohebiaeth parthed cofeb Talysarn. Dilwyn Lloyd mewn trafodaeth a Chyngor Gwynedd.  
\*Gorchymyn Cyngor Gwynedd - ffordd Bryn Rhedyw, Llanllyfni - gwaharddiad trafndiaeth dros dro. Darllenwyd.  
**Arall**  
\*Un Llais - cynhadledd. Neb am fynychu.  
\*HMRC - trwyddedau gyrru. Er gwybodaeth.  
\*Gohebiaeth parc solar Talysarn. Penderfynwyd trafod pan ddaw cais cynllunio ger bron y Cyngor .  
\*Grant grwp Cynefin. Holi os yw'r Cyngor Cymuned yn gymwys i wneud cais.  
\*Gohebiaeth parthed swyddfa'r bost, Penygroes. Llythyr yn cydnabod bod y swyddfa bost wedi cau dros dro. Deallwn yn lleol fod y sefyllfa wedi newid bellach, a bod y swyddfa bost ar fin agor yn ol.  
\*Gohebiaeth - The Pensions Regulator. Angen cofrestru ar lein.  
\*Llythyr - Sylwadau ar y Cynllun Adnau o ran ei Effaith ar y Gymraeg. Derbyn.  
\*Llythyr parthed cynllun siop Griffiths - darllenwyd y llythyr - cynnig i'r cyfarfod nesaf am 7.30.  
\*AON
- 8. Gwefan.**
- 9. Goleuadau Nadolig.** Cysylltu efo Noel i weld faint o oleuadau nadolig sydd angen eu archebu. Y Cyngor yn hapus i'r Clerc ddewis o'r catalog. Cysylltu efo Clerc Pwllheli i holi sut mae eu system goleuadau Nadolig nhw yn gweithio (cyflenwad trydan).

10. **Parcio Llanllyfni:** diweddariad. OP Huws wedi derbyn ymateb i'w ymholiadau, a fe'n hysbyswyd mai Cyngor Gwynedd fydd yn gorfod cyflwyno cais ac nid y Cyngor Cymuned.

11. **Materion Pentrefi. Llanllyfni** Llwybr dros y ffordd i'r fynwent (Pontcrychddwr) - mwy o ysbwriel wedi ei adael; gor-dyfiant ar y tro i fyny i Turnpike Berth yn beryglus i yrrwyr ac angen ei dorri; Nantlle Diolch am y bin aml-bwrpas, ond y lleoliad ddim yn fuddiol - yn geg y cae chwarae (cwn ddim yn cael mynd i'r cae chwarae). Angen ei osod rywle ar y llwybr rhwng Victoria Terrace a Trigonos. Gofyn i Peter Simpson (Cyngor Gwynedd) gysylltu efo Ffion. Penygroes Stryd yr Wyddfa - angen glanhau tyfiant ar y pafin a thrin y coed sydd yn tyfu yn y bocsus gan eu bod wedi tyfu'n fawr; coed dal i amharu ar y llinell ffon yn Trem yr Wyddfa - cysylltu efo Cartrefi Cymunedol; llinellau melyn Hen Lon - y Cyngor yn gwneud cais i gwtogi ar y llinellau melyn ychydig - Iwan wedi bod mewn cysylltiad efo Cyngor Gwynedd; cwyn am barcio ar Ffordd Haearn Bach - gofyn am gyfarfod safle, Iwan a Dyfed i fod yn bresennol. **Ffion yn ymddiheuro a gadael y cyfarfod.**

12. **Llwybrau a Mynwentydd.** Llwybrau category 1 i gyd wedi eu torri. Pryder am ffoes ar lwybr Bryn Awelon i Pant Du, a giat wedi ei chau efo llinyn - cysylltu efo Gerallt, Cyngor Gwynedd i fynd i edrych; Cerrig man wedi ei ysgubo oddi ar y llwybr yn MacPelah; gwaith tario Gorphwysfa ar fin cael ei wneud - goriad i'w fenthyg i'r contractiwr tra'n gwneud y gwaith; Cwtin yn cael ei dorri wythnos nesaf; Gwaith gwenwyno yn cael ei wneud; Coed celyn yn cael eu torri; Arwyddion Gorphwysfa - angen un wrth ymyl y tap "Dim ysbwriel" yn ogystal ag arwydd arall yn y gorlan flodau "Dim ysbwriel - gwastraff gwyrdd yn unig"; Gwariant - angen adolygu ar y gyllideb drwy'r amser; trafodwyd cyfrifon y Cyngor a phenderfynwyd gofyn i'r banc newid y cyfrifon fel bod y "cyfrif cyflogau" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyllideb ymestyn MacPelah. Angen newid y standing order i'r un swm ag yr oedd cyflog gweithiwr y Cyngor yn arfer bod. Cytunwyd rhoi praesept bychan o £1000 i'r is-bwyllgor ar gyfer man bethau yn ystod y flwyddyn ariannol.

13. **Materion yn ymwed a'r heddlu.** Yr Heddlu yn mynychu cyfarfod y Cyngor mis nesaf.

14. **Materion ariannol.**

**\*Taenlen i'w chymeradwyo.** Cymeradwywyd y daenlen. **Cyfrifon y Cyngor 2014-15** Y Cyfrifon wedi eu archwilio gan yr Archwilydd Mewnol - cymeradwywyd gan y Cyngor, ac fe'u llofnodwyd gan y Clerc a'r Cadierydd.

**\*Biliau i'w talu** – A Johnson ffon/rhynggrwyd £25; A Johnson – derbynebaw; Arwel Jones-Griffith £1540.00; Scottish Power £22.44; Scottish Power £21.44. Derbyn.

**\*Ceisiadau am Arian Dim.**